# Cynnwys


**Pennod 1** **Cyd-destun Strategol ac Ariannol** .... 2
**Pennod 2** **Tai** .... 7
**Pennod 3** **Trafnidiaeth** .... 14
**Pennod 4** **Adfywio** .... 18
**Pennod 5** **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** .... 20
**Pennod 6** **Datgarboneiddio** .... 23
**Pennod 7** **Natur a’r Amgylchedd** .... 27
**Pennod 8** **Datblygu Economaidd** .... 32
**Pennod 9** **Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon** .... 42
**Pennod 10** **Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd** .... 48
**Pennod 11** **Cymunedau** .... 51
**Pennod 12** **Llywodraeth Leol** .... 53
**Pennod 13** **Llifogydd a Dŵr** .... 54
**Pennod 14** **Addysg** .... 57
**Pennod 15** **Gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru** .... 59

adeiladau, seilwaith digidol, offer a cherbydau. Mae hefyd yn cynnwys gwelliannau clinigol, cynlluniau trawsnewid a chamau gweithredu i ddatgarboneiddio ystâd y GIG, a fydd yn rhoi modd i ddarparu gwasanaethau yn fwy economaidd ac effeithlon.

**1.9** Dyrannwyd £372 miliwn yn 2025-26 i seilwaith addysg sy'n cael ei fuddsoddi o dan ymbarél ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae effaith y rhaglen yn ymestyn o ddarpariaeth Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yr holl ffordd i addysg i oedolion a sefydliadau Addysg Uwch. Mae ail gam ein buddsoddiad gwerth £3.7 biliwn mewn ysgolion a cholegau wedi cyllido 129 o brosiectau newydd mewn ysgolion a cholegau, neu waith adnewyddu. Mae ein gofyniad am BREEAM Rhagorol a sero net ar waith yn yr ail gam wedi arwain at amcangyfrif o 190,000 t/CO2e o arbedion ac wedi lleihau costau refeniw cyfleustodau i ysgolion a cholegau.

**1.10** Dyrannwyd £523 miliwn i drafnidiaeth i barhau i gyflawni'r ymrwymiad yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Gan gwmpasu Ffyrdd Strategol, Rheilffyrdd, Bysiau a Thrafnidiaeth Ranbarthol, roedd y buddsoddiadau'n ceisio gwella cyflwr ein seilwaith trafnidiaeth, er mwyn darparu dewisiadau teithio modern, hygyrch a chynaliadwy ar gyfer gwaith a hamdden. Mae buddsoddiadau'n ceisio mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy ddarparu dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy a chynnwys darparu asedau bioamrywiaeth drwy waith fel y fenter Coridorau Gwyrdd. £181.6 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, sydd wedi darparu uwchraddiadau a oedd yn golygu bod modd cyflwyno trenau a thramiau trydan.

**1.11** Dyrannwyd £62.7 miliwn tuag at Lifogydd ac Ansawdd Dŵr. Aeth £36 miliwn tuag at reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol i ymateb i risgiau cynyddol. Roedd hyn yn parhau â'n gwaith i ddiogelu 45,000 o gartrefi erbyn diwedd y 6ed Senedd, drwy gyfanswm o dros £200 miliwn o fuddsoddiad. Mae ein dull gweithredu wedi cynnwys atebion rheoli sy'n seiliedig ar natur ym mhob dalgylch afonydd mawr, gan ehangu cynefinoedd gwlyptiroedd a choetiroedd. Bydd tri chynllun mawr a fydd yn dod i ben yn 2025-26 yn diogelu 3134 o gartrefi a 180 o fusnesau; cynllun amddiffyn yr arfordir gwerth £26 miliwn ym Mhrestatyn, cynllun amddiffyn yr arfordir gwerth £26.5 miliwn yn y Mwmbwls a chynllun gwerth £69 miliwn yng Nghanol y Rhyl.

**1.12** Mae Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) yn galluogi mwy o weithredu ar etifeddiaeth canrifoedd o gloddio a sicrhau diogelwch tomenni glo. Cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, rydym wedi dyrannu £33.3 miliwn yn ystod 2025-26 ar gyfer y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo presennol i gefnogi gwaith cynnal a chadw ac adfer i sicrhau bod yr ystad tomenni nas defnyddir yn cael ei rheoli'n effeithiol ac i liniaru'r bygythiad i les pobl.

## Y Cyllid sydd ar Gael

*Grant Bloc*

**1.13** Cafodd Llywodraeth Cymru setliad cyfalaf 4 blynedd yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mehefin 2025. Mae hyn yn rhoi

sicrwydd i'w groesawu o ran y rhagolygon ar gyfer gwariant cyfalaf dros weddill y degawd.

**1.14** Gan dybio y defnyddir benthyciadau cyfalaf Llywodraeth Cymru yn llawn, mae'r gyllideb gyfalaf gyffredinol yn 2026-27 2.2% yn uwch mewn termau real nag yn 2025-26 ac 8.6% yn uwch na'r alldro ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, disgwylir iddo ostwng 11% mewn termau real rhwng 2026-27 a 2029-30.

**1.15** Er gwaethaf hynny, mae'n werth nodi bod y cynnydd cymharol fawr mewn cyfalaf yn 2025-26 ac yn 2026-27 yn cadw'r gyllideb yn llawer uwch na'r disgwyl yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfalaf cyffredinol y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd yng nghyllideb Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth 2024.

**1.16** Cyrhaeddir y terfyn stoc cyffredinol o £1 biliwn ar gyfer benthyca cyfalaf ar ddiwedd y cyfnod, os defnyddir y terfyn blynyddol bob blwyddyn. O ganlyniad, bydd benthyca cyfalaf yn 2029-30 yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn cyfrannu at y gostyngiad a ragwelir yn y gyllideb gyfalaf dros weddill y degawd hwn.

*Cyfalaf Trafodiadau Ariannol*

**1.17** Rydym yn parhau i wneud y mwyaf o'n dyraniad presennol o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol. Cawsom £85.3 miliwn o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2026-27, ac rydym yn disgwyl cael £13.2 miliwn arall mewn ad-daliadau o fuddsoddiadau blaenorol. Byddwn yn defnyddio hyn i fuddsoddi dros £130 miliwn mewn amrywiaeth o sectorau, a fydd yn fuddiol i nifer o rannau o'n cymdeithas a'n heconomi.

*Benthyca Cyfalaf*

**1.18** Mae'r dyraniadau i'r meysydd buddsoddi yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adlewyrchu'r defnydd gorau posibl o'n capasiti benthyca, gan ein galluogi i ariannu rhagor o fuddsoddiadau mewn seilwaith. Byddai defnyddio'r proffil benthyca yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 yn arwain at gost adnoddau ychwanegol o £4.4 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd i dalu am y benthyca.

*Buddsoddi mewn Seilwaith gydag Arian Adnoddau*

**1.19** Er bod y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adlewyrchu dyfarniadau cyllideb cyfalaf Cyllideb Ddrafft 2026-27, rydym yn parhau i gyllido amrywiaeth o fuddsoddiadau mewn seilwaith drwy gynlluniau wedi eu cyllido gan adnoddau, sy'n creu gwerth cyfalaf sylweddol.

**1.20** Mae ein Model Buddsoddi Cydfuddiannol, sy'n cael ei gyllido'n breifat, yn parhau i gyflawni prosiectau seilwaith mawr. Gan ddefnyddio'r model, rydym wedi denu £1.14 biliwn o fuddsoddiad ychwanegol gan gynnwys cwblhau adrannau 5 a 6 o brosiect deuoli'r A465 a, thrwy ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, darparu tair ysgol gynradd newydd yn Rhondda Cynon Taf a champws ysgol pob oed newydd yn Sir y Fflint sy'n darparu cyfleusterau addysgol modern, carbon sero net i dros 2,400 o ddysgwyr. Mae Canolfan

Ganser newydd Felindre yng Nghaerdydd a phrosiect dau gampws ar gyfer Coleg Caerdydd a'r Fro wrthi'n cael eu hadeiladu a disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn 2027.

**1.21** Rydym yn parhau i ddarparu'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Rheoli Priffyrdd sy'n galluogi awdurdodau lleol i gyllido tua £120 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd i drwsio ffyrdd lleol dros ddwy flynedd y cynllun.

**Buddsoddiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

**1.22** Yn Adolygiad o Wariant 2025 y Deyrnas Unedig, cawsom £118 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer diogelwch tomenni glo. Mae hyn yn adeiladu ar ein cyllid presennol i gynnal a chadw tomenni glo a'u cadw'n ddiogel. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn awr yn buddsoddi dros £220 miliwn i fynd i'r afael â gwaddol tomenni glo, gan gefnogi a diogelu cannoedd o gymunedau sy'n byw mewn hen ardaloedd glofaol a buddsoddi yn eu dyfodol.

**1.23** Cyhoeddodd Adolygiad Gwariant y Deyrnas Unedig £445 miliwn o welliannau rheilffyrdd i Gymru. Gan adeiladu ar ein buddsoddiad ein hunain mewn rheilffyrdd, bydd hyn yn cyflawni prosiectau rheilffyrdd allweddol yng Nghymru ac yn dod â manteision economaidd nodedig, gan gynnwys uwchsgilio'r gweithlu lleol a chyfleoedd cyflogaeth ychwanegol. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod cyfran deg Cymru o gyllid rheilffyrdd yn parhau i gael ei hystyried yn llawn.

**1.24** Cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyllid o grant gwerth £500 miliwn i Tata Steel ym Mhort Talbot fel rhan o'r fargen trawsnewid gwerth £1.25 biliwn. Dyma un o'r prosiectau trawsnewid diwydiannol mwyaf yn y Deyrnas Unedig, a fydd yn lleihau allyriadau carbon diwydiannol cyfan y Deyrnas Unedig 8%, a Phort Talbot 90%, gan osod meincnod mewn cylcholdeb drwy ddefnyddio metel sgrap y Deyrnas Unedig.

**1.25** Rydym wedi cydnabod arwyddocâd ein porthladdoedd yng Nghymru i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni prosiectau gwynt ar y môr, gan gynnwys y cyfleoedd a ddarperir ym Mhort Talbot. Cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hymrwymiad drwy ddyrannu hyd at £80 miliwn dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant ar gyfer buddsoddi mewn porthladdoedd. Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r porthladd i ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i ategu cyfleoedd ar gyfer gwynt arnofiol ar y môr. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig i fodloni gofynion y diwydiant newydd hwn yng Nghymru.

dros 85% o’r prosiectau cysyniad cychwynnol wedi cael eu mabwysiadu a’u datblygu gan randdeiliaid eraill, gan ddenu dros £47 miliwn o gyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol.

**6.16** Ers 2020, mae Byw’n Glyfar wedi rhoi dros £5 miliwn o gyllid cyfalaf tuag at Gontractau ar gyfer Heriau Arloesi Menter Ymchwil Busnesau Bach i gynorthwyo cynllun peilot datgarboneiddio systemau cyfan a hydrogen. Ar ôl gwerthuso, lansiodd y cynllun raglen piblinell Menter Ymchwil Busnesau Bach systemau cyfan ailadroddus hirdymor Rhaglen Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan ar gyfer Datgarboneiddio yn ddiweddar, gan gyllido pum Perchennog Her datgarboneiddio Dichonoldeb Cam 1 newydd ledled Cymru. Bydd Arddangoswyr Cam 2 yn cael eu dewis drwy gystadleuaeth am hyd at £500,000 o gymorth fesul Her yn 2025-26.

gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg ffynnu ond hefyd yn galluogi diwydiannau presennol i symud i ddatblygu.

**8.49** Mae buddsoddiad y Cymoedd Technoleg wedi helpu i greu 300,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr newydd a gofod llawr wedi'i adnewyddu, gan alluogi 900 o swyddi posibl. Cyflawnwyd hyn drwy alluogi defnydd economaidd o dir segur a gweithio gyda chwmnïau sy'n bodoli'n barod i helpu i wella cynhyrchiant a sgiliau, a thyfu'r hyn a gynhyrchir ar hyn o bryd. Bydd y ffigur hwn yn parhau i dyfu wrth i fwy o brosiectau ddwyn ffrwyth.

**8.50** Mae'r Cymoedd Technoleg yn cefnogi gwydnwch, effeithlonrwydd a'r defnydd o dechnoleg mewn busnesau bach a chanolig. Mae'r gwaith yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM a hyrwyddo'r nifer sy'n astudio pynciau STEM yn yr ysgol ac ar ôl 16 oed.

- Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Digidol
- Datgarboneiddio
- Ymchwil Addysg Uwch a Ffurfweddiad Ystadau

**14.4** Mae buddsoddiad cyfalaf ehangach yn yr ystad addysg yn cynnwys rhaglen fuddsoddi mewn Gwaith Atgyweirio Brys i ysgolion ffydd a Thechnoleg Addysg.

**14.5** Ers 2014 rydym wedi buddsoddi dros £2.9 biliwn o fuddsoddiad grant cyfalaf Llywodraeth Cymru mewn ysgolion a cholegau drwy brosiectau adnewyddu mawr ac adeiladu newydd. Rhwng 2014 a 2019, cyflenwodd Cam 1 204 o ysgolion newydd ac ysgolion wedi eu hadnewyddu ledled Cymru, gan wella'r amgylchedd dysgu i dros 100,000 o ddisgyblion. Daeth yr ail gam i ben ym mis Mawrth 2025 gan gyflenwi 126 yn rhagor o brosiectau adeiladu neu adnewyddu ysgolion a cholegau ledled Cymru, gan helpu ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni eu nodau.

**14.6** Cyhoeddwyd rhaglen 9 mlynedd fel rhan o brosiect Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae Cynlluniau Amlinellol Strategol a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol a cholegau wedi cael eu cymeradwyo mewn egwyddor. Mae hyn yn cynnwys 329 o brosiectau newydd ar draws yr ystad addysg, gyda chyfanswm buddsoddiad arfaethedig o £5.545 biliwn dros y 9 mlynedd nesaf. Gyda chyllideb cyfalaf o £371 miliwn ar gyfer 2025-26, sy'n cynyddu i dros £378 miliwn ar gyfer 2026-27.

**14.7** Mae'r holl brosiectau adeiladu, ymestyn ac adnewyddu mawr o fewn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'u hadeiladu i safonau amgylcheddol a chynaliadwyedd Rhagorol BREEAM. Mae prosiectau hefyd yn rhai Carbon Sero Net ar Waith ac yn darged ar gyfer lleihau carbon corfforedig. Rhwng 1 Ionawr 2002 a mis Mawrth 2025, amcangyfrifwyd bod 190,000 t/CO2e o allyriadau carbon uwchben llinell sylfaen y Rhaglen wedi cael eu harbed o ganlyniad uniongyrchol i'r mandad gweithredu sero net.

**14.8** Mae'r arbediad yn debygol o fod yn llawer uwch gan y bydd gwaith llai, gan gynnwys cynnal a chadw cyfalaf, wedi lleihau allyriadau carbon a chostau cyfleustodau cysylltiedig i ysgolion a cholegau. Mae'r prosiectau hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i greu a gwella cynefinoedd. Mae'r cynefinoedd hyn yn creu neu'n gwella dalfeydd carbon fel coetiroedd bach a dolau, sy'n helpu i leihau llygredd aer ac i ddal carbon.

**14.9** Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r sector Addysg Uwch. Mae £2.7 miliwn wedi ei ddyrannu yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 i gynorthwyo a gwella seilwaith TG y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr er mwyn gallu darparu cymorth statudol i fyfyrwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru. Bydd £10 miliwn yn cael ei ddarparu i Medr i gynorthwyo'r gwaith o gynnal ystadau sefydliadau addysg uwch.

| | Sector | Ardal Fuddsoddi | Llesiant Amgylcheddol | | | | Llesiant Cymdeithasol | | | | Llesiant Economaidd | | | | Llesiant Diwylliannol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 33 | | Seilwaith Strategol | | | | | | | | x | x | x | | | | | | |
| 34 | | Y Cymoedd Technoleg | x | | | | | | x | x | | x | | | | | | |
| 35 | Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon | Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth | x | | | | x | x | | | | | | x | | x | | |
| 36 | | Cadw | | | | | | x | | | | | | | | x | | |
| 37 | | Creadigol | | | | | | | | | | x | | | x | | | |
| 38 | | Chwaraeon | | | | | x | | | | | | | | | | x | |
| 39 | | Twristiaeth | | | | | | | | | | | | | x | x | | |
| 40 | Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd | Pysgodfeydd a Dyframaethu | | x | | | | | | | x | x | | | | | | |
| 41 | | Adnabod Da Byw a Thir Comin | | x | | | | x | | | | x | | | | | | |
| 42 | | Buddsoddi Gwledig | | x | | x | | | | | x | | | | | | | |
| 43 | Cymunedau | Seilwaith Cymunedol | | | | | x | x | x | | | | | | | | | x |
| 44 | Llywodraeth Leol | Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Leol | | | | x | | | | | | | | | | | | x |
| 45 | Llifogydd a Dŵr | Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd | | | x | | x | x | | | | x | | | | | | |
| 46 | | Cronfeydd Dŵr | | x | | | x | | | | | | | | | | | |
| 47 | | Ansawdd Dŵr | | x | x | | | | | | | | | | | | | |
| 48 | Addysg | Seilwaith Addysg | x | | | | | x | x | | | | x | x | x | | | |
| 49 | Gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru | Costau Rhedeg Canolog | x | | | | | | | | | | | | | | | x |